OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 299 (Cy. 33)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Gogledd o Benmachno, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau Cyflymder a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2015

*Gwnaed* *26 Ionawr 2015*

*Yn dod i rym* *2 Chwefror 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (A5) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Chwefror 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Gogledd o Benmachno, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau Cyflymder a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 2 Chwefror 2015 ac a ddaw i ben pan dynnir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd i'r gogledd o Benmachno ym mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 700 metr i'r de-ddwyrain o

ganolbwynt ei chyffordd â’r B4406 hyd at bwynt 350 metr i’r gogledd-orllewin o’r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 10 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darn o’r gefnffordd yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a’r gwaharddiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**7.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 26 Ionawr 2015

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.